

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Delyth

Sesiwn graffu Gweinidogol: Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Diolch am eich llythyr ychwanegol dyddiedig 26 Tachwedd 2021 sy'n cynnwys rhai ymholiadau pellach

Cyfrifoldebau Gweinidogol

O ran cyfrifoldebau sy'n cael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Pwyllgor, mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip yn arwain yn eang ar Ddiwylliant, Chwaraeon a chylch gwaith Cadw a Chymru Greadigol.

Llythyrau cylch gwaith

Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mhortffolio'r Dirprwy Weinidog, wedi gweld drafftiau cynnar o'r Llythyr Cylch Gwaith ac wedi cael y cyfle i roi sylwadau arno. Wrth baratoi'r llythyrau, rydym wedi cynnal dull gweithredu 'dim byd annisgwyl', gan bwysleisio'r angen i'r cyrff gynllunio yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd.

Mae'r Llythyrau Cylch Gwaith bellach yn barod, ac yn mynd trwy'r prosesau terfynol o ran eu clirio a'u cyfieithu cyn iddynt gael eu cyhoeddi i'r cyrff a noddir. Unwaith i'r llythyrau gael eu cyhoeddi, anfonwn gopïau ymlaen at y Pwyllgor.

Strategaeth Ddiwylliant

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ymgysylltu â sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd, blaenoriaeth a nodwyd yn benodol yn niweddariad y Rhaglen Lywodraethu ym mis Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer ein blaenoriaethau'n symud ymlaen a sut y byddwn yn cynnal a datblygu'r sectorau. Cafodd y gwaith ar flaenoriaethau diwylliannol a ddiweddarwyd ei oedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn ystod y pandemig er mwyn i adnoddau ganolbwyntio ar yr ymateb i'r Coronfeirws. Pan gyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau, cytunodd y Dirprwy Weinidog y dylai gwaith i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd aros tan fod amodau iechyd y cyhoedd wedi gwella'n sylweddol, er mwyn ei alluogi i fod yn flaenoriaeth yn 2022.

Mae swyddogion wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer cwmpas y strategaeth newydd, sydd wedi'i gosod yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu a ddiweddarwyd ac adferiad o'r pandemig, gan ystyried i ba raddau y gallwn ddatblygu'r gwaith a gynhelir yn flaenrol wrth i ni symud ymlaen. Byddwn yn gwerthfawrogi clywed barn y Pwyllgor maes o law.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y
Celfyddydau a Chwaraeon, a'r
Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and
Sport, and Chief Whip